


Adroddiad Blynyddol Ofcom i Gomisiynydd y Gymraeg

Ein cynnydd o ran cydymffurfio â Safonau'r
Gymraeg, 2022-23

Adroddiad

Dyddiad cyhoeddi 2 Hydref 2023



Cynnwys

Adran

Trosolwg	3
1. Gwybodaeth am Ofcom.....	5
2. Ein dull gweithredu.....	6
3. Manylion cyswllt.....	10

Atodiadau

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau.....	11
A2. Ffurflen asesu'r effaith ar yr Iaith Gymraeg	12

Trosolwg

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi ein gweithgarwch a'n cynnydd mewn perthynas â chydymffurfiaeth â deddfwriaeth y Gymraeg, ar gyfer y flwyddyn 2022-2023.¹

Mae ein hymrwymiad at hyrwyddo'r Gymraeg a galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i ryngweithio â ni yn eu dewis iaith – boed hynny yn Gymraeg neu Saesneg - yn parhau'n gadarn. Rydym wedi cyflawni hyn mewn modd sy'n gymesur ac yn gyson â'n dyletswyddau presennol.

Gosodwyd Safonau'r Gymraeg ar Ofcom drwy gyfrwng ei hysbysiad cydymffurfio ym mis Ionawr 2017.² Roedd hwn yn cynnwys 141 o Safonau, gan ddarparu'r fframwaith i'n galluogi i gynyddu ein gwaith yn y Gymraeg, gan ystyried effaith ein gwaith llunio polisi ar anghenion siaradwyr Cymraeg ynghyd â ffordd rydym yn cynnal ein gwaith ymchwil i'r farchnad.

Rydym yn croesawu penodiad Efa Gruffudd Jones yn Gomisiynydd y Gymraeg o fis Ionawr 2023 ac roedd yn braf gennym gynnal cyfarfod cyflwyno cychwynnol â hi pan ddechreuodd yn ei swydd. Ar wahân i hynny, cawsom gyfarfod ag Efa ynghyd ag uwch gydweithwyr o'n tîm Cyfathrebu. Rydym o'r farn bod ein rhyngweithgarwch gyda'r Comisiynydd yn bwysig at ddibenion ein datblygiad ein hunain parthed y Gymraeg ac er mwyn hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol, ac edrychwn ymlaen at barhau i ryngweithio i'r perwyl hwn yn y flwyddyn sydd i ddod.

Cynnydd Ofcom yn y Gymraeg – yn gryno

Mae Ofcom yn rhoi sylw, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn i'w hysbysiad cydymffurfio terfynol a osodwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn ddiweddar, rydym wedi penodi Cynghorydd y Gymraeg ac mae gennym Swyddog y Gymraeg yn ei swydd, sy'n dod â phrofiad ac sy'n rheoli gwaith Ofcom yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys darparu cyngor i gydweithwyr ar draws y sefydliad ynghylch cymhwyso safonau'r Gymraeg i sicrhau cydymffurfiaeth. Yn ddiweddar hefyd, rydym wedi penodi Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg i arwain ar ein gweithgarwch cyfryngau cymdeithasol dwyieithog, a hynny mewn cydweithrediad agos â'n hadran Gyfathrebu yn ein pencadlys yn Llundain.

Hyd yn oed gyda llacio cyfyngiadau Covid-19, rydym wedi parhau i addasu ein rhaglen ddigwyddiadau ac rydym yn cynnig opsiwn hybrid o hyd ar gyfer rhai digwyddiadau, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â'r ddeddfwriaeth. Rydym wedi cynnal sawl digwyddiad (hybrid) yn y flwyddyn ddiwethaf, gan ddefnyddio llwyfannau technolegol sy'n caniatáu cyfieithu ar y pryd er mwyn sicrhau bod cyfranogwyr yn gallu defnyddio'r Gymraeg heb unrhyw drafferthion. Caiff digwyddiadau wyneb yn wyneb eu trefnu a'u cynnal yn ddwyieithog ac rydym yn annog cyfranogiad yn Gymraeg, gan ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd cymwys a phrofiadol.

Yn ein gwaith cyfathrebu Cymraeg, rydym yn teilwra'n dull i sicrhau bod cynnwys yn berthnasol i'n cynulleidfaoedd yng Nghymru a'i fod yn ddengar. Ymhlith ein gweithgareddau allweddol yn y Gymraeg dros y flwyddyn ddiwethaf mae:

- Caiff prif gyhoeddiadau Ofcom eu cyhoeddi yn ddwyieithog fel arwydd clir o'n hymrwymiad tuag at gynnwys ein rhanddeiliaid a'n cynulleidfaoedd sy'n siarad Cymraeg.

¹ O fis Medi 2022-Medi 2023.

² https://www.ofcom.org.uk/data/assets/pdf_file/0026/96920/Hysbysiad-Cydymffurfio44-Y-Swyddfa-Gyfathrebiadau-cy.pdf

- Darparu cyngor a chefnogaeth i gydweithwyr ar draws y sefydliad am ofynion cydymffurfio a'r angen i ystyried y Gymraeg o'r cychwyn cyntaf.
- Parhau i boblogi cymaint o'n gwefan yn ddwyieithog ag y gallwn. Mae cynlluniau ar droed ar hyn o bryd i symud i wefan Newydd yn 2024 ac mae hyn yn ystyriaeth o'r pwys pennaf wrth lunio gofynion technegol.
- Cynyddu capasiti ar ein llinell gymorth Gymraeg – mae 5 aelod o staff ar gael erbyn hyn i ateb galwadau ac mae mewnlwch cyffredin i ddal ac ymdrin â negeseuon llais sy'n cael eu gadael.

Mae manylion llawn am ein gweithgarwch yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn i'w gweld yn Adran 2.

1. Gwybodaeth am Ofcom

- 1.1 Ofcom yw'r rheoleiddiwr cyfathrebiadau annibynnol yn y Deyrnas Unedig. Yn Llundain mae ein pencadlys, ac mae gennym swyddfeydd ym mhob gwlad yn y DU. Rydym yn rheoleiddio'r sectorau teledu, radio a fideo ar-alw, telathrebu llinellau sefydlog a symudol, gwasanaethau post a'r tonnau awyr y mae dyfeisiau di-wifr yn eu defnyddio. Yn gynharach ym mis Medi 2023, cwblhaodd [Bil Diogelwch Ar-lein](#) Llywodraeth y DU ei daith drwy ddau dŷ Senedd San Steffan, gan nodi cyfrifoldebau newydd Ofcom a fydd yn helpu i sicrhau bod pobl yn ddiogel pan fyddant ar-lein. Bydd y maes cyfrifoldeb newydd hwn yn cynyddu ein gweithgarwch ym maes diogelwch ar-lein, gan gynnwys cyhoeddi dogfennau ymgynghori a chodau ymarfer.
- 1.2 Mae Ofcom yn sicrhau bod pobl yn y DU yn cael y gorau o'u gwasanaethau cyfathrebiadau. Rydym hefyd yn helpu i sicrhau nad yw pobl yn cael eu twyllo a'u bod yn cael eu gwarchod rhag arferion drwg. Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer pobl hŷn a phobl agored i niwed. O Senedd y DU y daw ein dyletswyddau.

Ofcom yng Nghymru

- 1.3 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, rydym yn sicrhau bod gennym bersbectif ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i roi sylw dyledus, ymysg pethau eraill, i safbwyntiau a buddiannau'r rhai sy'n by war draws y DU. Mae ein gweithgareddau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein swyddfeydd cenedlaethol yn gallu galw ar adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig.
- 1.4 Er bod pencadlys Ofcom yn Llundain, rydym yn sicrhau bod gennym bersbectif ar draws gwledydd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Mae'n ddyletswydd statudol arnom i roi sylw dyledus, ymysg pethau eraill, i safbwyntiau a buddiannau'r rhai sy'n by war draws y DU. Mae ein gweithgareddau yn y gwledydd yn cael eu harwain gan uwch Gyfarwyddwyr yng Nghaerdydd, Belfast, Caeredin a Llundain. Mae ein swyddfeydd cenedlaethol yn gallu galw ar adnoddau llawn y sefydliad cyfan i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar un rhan o'r Deyrnas Unedig.

Ymgysylltu â swyddfa a swyddogion Comisiynydd y Gymraeg

- 1.5 Mae Ofcom wedi ymgysylltu'n adeiladol â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ers blynnyddoedd lawer, gan sicrhau bod gennym ddealltwriaeth drylwyr o ofynion y Comisiynydd a dull cyfathrebu parhaus, y ddwy ffordd. Rydym yn gwerthfawrogi parodrwydd swyddogion y Comisiynydd i gefnogi a darparu cyngor ac rydym newydd ddechrau ein cyfnod monitro bob dwy flynedd – proses sy'n adeiladol a llawn gwybodaeth rydym yn ei gwerthfawrogi'n fawr.
- 1.6 Rydym wedi monitro sesiynau briffio a drefnwyd gan y Comisiynydd a bu sesiwn dan arweiniad Gwion Lewis CF yn arbennig o fewnweledol a defnyddiol. Byddwn yn parhau i fynychu sesiynau o'r fath yn y dyfodol.

2. Ein dull gweithredu

2.1 Nod Ofcom yw trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Wrth ddarparu gwasanaeth yn y Gymraeg, rydym yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei thrin ar yr un sail â'r Saesneg yng Nghymru. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- y ffordd caiff deunydd i gyflwyno'n weledol
- pryd a sut caiff y deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos
- maint, safle ac amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw fan cyhoeddus, a'i fformat cyhoeddi.

Mae ein dull wedi'i ddylunio i alluogi pobl i ymwneud â'n gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cynnig llinell gymorth Gymraeg benodedig (0300 123 2023) rhwng 0900 a 1700 ac wedi cynyddu nifer yr aelodau staff dwyieithog sy'n gallu ateb galwadau i 5 aelod. Cynhaliwyd gwaith technegol ar y datblygiad hwn yn ddiweddar, heb unrhyw darfu o gwbl i'r gwasanaeth. At hynny, rydym wedi cynnwys cyfleuster yn ein system i bob un o'r 5 aelod wrando ar negeseuon sy'n cael eu gadael y tu allan i oriau swyddfa, er mwyn gallu ymateb yn brydlon ac yn gynhwysfawr.

2.2 Ein nod yw arloesi yn ein cyfathrebiadau ac rydym bob amser yn croesawu ac yn annog mwy o ymgysylltiad gan siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys gwahodd amryw o gyfranwyr allanol Cymraeg i gymryd rhan yn ein digwyddiadau i randdeiliaid, cynhyrchu cynnwys Cymraeg rhyngweithiol a chyhoeddi cynnwys dengar sy'n ymwneud â Chymru ar gyfryngau cymdeithasol.

2.3 Wrth benderfynu pryd i ddarparu gwasanaeth Cymraeg, rydym yn defnyddio maen prawf cyson. Os yw'r mater dan sylw yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddinasyddion a busnesau yng Nghymru – neu'n debygol o fod yn berthnasol i ddinasyddion a busnesau yng Nghymru, yna byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg fel mater o drefn.

Ein cynnydd dros y flwyddyn ddiwethaf

2.4 Mae ein Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg yn weithiwr proffesiynol cyfathrebu profiadol a dwyieithog ac mae hi yn ei swydd ers mis Gorffennaf 2023. Y rôl newydd yma fydd yn arwain yn bennaf ar bob mater yn ymwneud â chyfryngau cymdeithasol a chyfathrebu yn Gymraeg, mewn cydweithrediad agos â Chynghorydd y Gymraeg, Swyddog y Gymraeg a'r Pennaeth Newyddion Digidol a Chreadigol o dîm Cyfathrebu Ofcom. Mae hyfforddiant yn y rôl yn cynnwys camau sefydlu llawn yng ngofynion Safonau'r Gymraeg, cefndir o ran cydymffurfiaeth a datblygiadau diweddar, a llunio strategaeth cyfryngau cymdeithasol dwyieithog yng ngoleuni ein cynllun gweithredu a gytunwyd yn ddiweddar gyda Chomisiynydd y Gymraeg.

2.5 Mae sawl aelod o Bwyllgor Cynghori Cymru Ofcom yn siaradwyr Cymraeg rhugl, ynghyd ag Aelod Bwrdd Cynnwys Ofcom ar gyfer Cymru. Yn ddiweddar, rydym wedi hysbysebu am Aelod i'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau ynghyd ag Aelod Bwrdd Ofcom ar gyfer Cymru. Cynhaliwyd y ddwy ymgyrch recriwtio yn ddwyieithog.

2.6 Rydym yn cyhoeddi pob gohebiaeth i randdeiliaid yn ddwyieithog, yn ymateb i'r ohebiaeth yn yr iaith a ddefnyddiwyd i ysgrifennu atom ac yn cofnodi dewis iaith fel mater o drefn.

- 2.7 Cyhoeddodd Ofcom ei ddogfennau allweddol o ddiddordeb a pherthnasedd i gynulleidfa Gymraeg yn ddwyieithog; ymhlith y rhain roedd Cysylltu'r Genedl,³ gyda'i adroddiad dwyieithog rhyngweithiol Power BI,⁴ Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad mewn teledu a radio,⁵ Cyfryngau'r Genedl 2023,⁶ Ein Gwlad Ar-lein,⁷ yn ogystal â dogfennau ymgynghori,⁸ cyhoeddiadau, datganiadau i'r wasg, e-byst diweddarau a thudalennau gwe.
- 2.8 Rydym wedi rhoi cyfweiliadau yn Gymraeg ar BBC Radio Cymru a Newyddion S4C i drafod ymchwil a chyhoeddiadau fel y rhai a nodir uchod ac rydym bob amser yn fodlon ymddangos i rannu gwybodaeth a safbwyntiau drwy gyfrwng y Gymraeg
- 2.9 Ar gais Comisiynydd y Gymraeg, cynhaliom adolygiad o'n gweithdrefnau a'n prosesau mewn perthynas â'n safonau llunio polisi. Rydym wedi diwygio ein canllawiau ar gyfer llunio, adolygu neu addasu polisiâu a chyhoeddi dogfennau ymgynghori i sicrhau eu bod yn ystyried yn llawn effaith pob polisi ar yr iaith Gymraeg yn unol â'r safonau. Rydym wedi gwneud newidiadau er mwyn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried ar y cychwyn cyntaf yng ngwaith Ofcom o wneud penderfyniadau polisi – mae hyn wedi cynnwys sicrhau bod cydweithwyr o Ofcom Cymru'n rhan o'r Proffesiwn Polisi.
- 2.10 Darparom gefnogaeth i'n Tîm Gwneud Synnwyr o'r Cyfryngau gyda'u sioe deithiol ar gyfer 2023 lle cafwyd digwyddiad dwyieithog ym Mhrifysgol Bangor ar Dechnoleg Drochol a Deallusrwydd Artiffisial Cynhyrchiol. Croesawom ryw 40 o randdeiliaid i'r digwyddiad hwn a chafwyd cyflwyniadau yn Gymraeg gyda chyfieithu ar y pryd ac yn Saesneg.
- 2.11 Mae ein digwyddiadau yng Nghymru wedi cynnwys cyfranogwyr a chyflwyniadau dwyieithog, gyda rhanddeiliaid yn dewis siarad Cymraeg mewn sesiynau holi ac ateb. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal digwyddiadau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Gynllun Gwaith Ofcom 2023/24 ac adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2023 – gan rannu canfyddiadau ein hymchwil gyda thrawstoriad o randdeiliaid o'r diwydiant. Rydym yn darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn ein digwyddiadau yng Nghymru sy'n caniatáu i gyfranogwyr gyfrannu yn yr iaith maent yn teimlo fwyaf cyfforddus ynddi ac rydym bob amser yn agor digwyddiadau yn ddwyieithog gan wahodd unrhyw un sy'n bresennol i ddefnyddio'u dewis iaith.
- 2.12 Mae gennym fodiwl hyfforddi rhyngweithiol ar y Gymraeg ar ein mewnrwyd, sef yr 'Hive' Dysgu a Datblygu, y caiff cydweithwyr o bob rhan o'r DU ei gwblhau yn rhan o gyfres o gyrsiau helaeth i ddyfnhau gwybodaeth a chodi ymwybyddiaeth.
- 2.13 I ddathlu Dydd Gŵyl Dewi, hyrwyddwyd gwaith Ofcom yn y Gymraeg yn ein sesiwn wythnosol bore Llun gyda'n Prif Weithredwr – sef 'Good Morning Ofcom', neu y tro hwn, 'Bore Da Ofcom'. Darparwyd pice ar y maen cartref i gydweithwyr yn ein prif swyddfa. Defnyddiom y slot i amlygu pwysigrwydd y Gymraeg i weithrediadau Ofcom o ddydd i ddydd a'r angen i ystyried y Gymraeg yn ein busnes beunyddiol. Mae'n braf gennym nodi bod Good Morning Ofcom bellach yn agor bob wythnos gyda chyfarchiad, 'Bore da' a hynny droeon yn ystod y sesiwn.

³ [Cysylltu'r Gwledydd 2022](#)

⁴ [Adroddiad rhyngweithiol - Ofcom](#)

⁵ [Tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad mewn teledu a radio: 2021-22](#)

⁶ [Cyfryngau'r Genedl 2023](#)

⁷ [Ein Gwlad Ar-lein 2022](#)

⁸ [Ymgynghoriad: cynllun gwaith arfaethedig Ofcom 2023/24](#)

- 2.14 Nifer y staff o swyddfa Cymru sydd wedi mynychu hyfforddiant Cymraeg yn ystod y flwyddyn yw dau. Y ddwy aelod newydd o'r staff yw'r rhain sydd newydd gael eu penodi. Os caiff unigolion newydd eu penodi, maent yn cael eu hannog i ddilyn y modiwl hyfforddi hwn at ddibenion ymwybyddiaeth a chaiff unrhyw swyddi newydd a hysbysebwr eu hasesu o ran eu gofynion sgiliau Cymraeg i ateb anghenion y busnes cyn i'r broses recriwtio ddechrau.
- 2.15 Nifer y swyddi a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yw dwy, a thybiwyd bod y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y ddwy hyd at lefel ruglder C2 CEFR. Y swyddi hyn oedd swydd Cynghorydd y Gymraeg a swydd y Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol Cymraeg y cyfeirir atynt uchod. Gwahoddwyd ceisiadau yn Gymraeg neu Saesneg yn rhan o'r ymgyrchoedd recriwtio hyn; cynhyrwyd hysbysebion Cymraeg a Saesneg a chynhaliwyd y broses benodi'n ddwyieithog gyda'r cyfweiliadau ar gyfer un o'r swyddi'n cynnwys gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg.

Cwynion

- 2.16 Lansiodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad (CS048) i ymgyngoriad Ofcom i'r ffordd y byddai'n trwyddedu radio DAB ar Raddfa Fach. Wedi dyfarniad bod Ofcom wedi torri ei safonau mewn perthynas â gwaith llunio polisi, roedd yn ofynnol i Ofcom gynnal adolygiad o'i brosesau a' i ganllawiau ar gyfer llunio, adolygu neu addasu polisiâu i sicrhau ei fod yn ystyried effaith pob polisi ar y Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cadarnhau ei bod yn fodlon gyda'r dystiolaeth ysgrifenedig a ddarparwyd iddi gan Ofcom yn dilyn yr adolygiad hwn.
- Derbyniodd y Comisiynydd gŵyn debyg ar 15/02/23 (CS1113) yn ymwneud â phenderfyniad Ofcom i ddyfarnu trwydded radio i wasanaeth Darlledu Digidol Gwent er na aeth ymlaen i fod yn destun ymchwiliad. Penderfynwyd bod y materion dan sylw yn debyg i'r mater uchod ac y byddai canlyniadau'r ymchwiliad i'r mater cyntaf yr un mor berthnasol i'r ail fater.
- 2.17 Ym mis Mehefin 2022, lansiodd Comisiynydd y Gymraeg ymchwiliad (CS1024) i ddefnydd Ofcom o'r Gymraeg ar gyfryngau cymdeithasol (safon 54) a'r honiad nad oedd Ofcom yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal wrth gynhyrchu podlediadau. Roedd yn ofynnol i Ofcom baratoi cynllun gweithredu ddrafft at y diben o sicrhau cydymffurfiaeth â safon 33 a safon 54. Mae'r camau hyn wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.
- 2.18 Cafodd un gŵyn a dderbyniwyd yn flaenorol ei hepgor drwy amryfusedd o'r Adroddiad Blynyddol i Gomisiynydd y Gymraeg y llynedd. Dymunwn ymddiheuro unwaith eto i'r achwynydd am y camgymeriad hwn.
- 2.19 Mae crynodeb o'r cwynion a dderbyniwyd ar gael isod yn unol â gofyniad safon 164.

Cwyn	Nifer y cwynion gan gynnwys categori'r safon roedd y gŵyn yn perthyn iddi			
	Cyflenwi Gwasanaethau	Llunio Polisi	Gweithredu	Cadw Cofnodion
Safonau 84 – 89 Ymgynghoriad Polisi DAB ar Raddfa Fach (CS048) (CS1113) Mewn perthynas â Gwasanaeth Darlledu Digidol Gwent – roedd hon yn gŵyn gysylltiedig, yr ymdriniwyd â hi o dan yr un drefn.		1		
Safonau 33 a 54 (CS1024) Cyfryngau Cymdeithasol	1			
Safon 158 (a dderbyniwyd yn flaenorol – cofnod cywirol yw hwn)		1 (atodol)		

- 2.20 Ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion mewnol yn ystod 2022-23.
- 2.21 Ym mis Mehefin 2022, lansiom [ffurflen gwyno ddwyieithog newydd](#) gan ddefnyddio Salesforce, system mae Ofcom yn ei defnyddio i reoli cwynion, fel bod aelodau o'r cyhoedd sydd am gwyno am ein gwaith yn Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Mae hyn yn sicrhau yr ymdrinnir â'r cwynion hyn yn yr un modd â chwynion eraill a ddaw i law. Mae'r ffurflen hon ar ein gwefan.
- 2.22 Mae Gweithdrefn Gwyno Ofcom yn esbonio sut rydym yn ceisio ymdrin â chwynion am ein safonau cyflenwi gwasanaeth. Mae hon ar gael ar ein gwefan ac mae hefyd ar gael ar ffurf copi caled yn swyddfa Ofcom Cymru. Gall aelodau o'r cyhoedd gysylltu â ni i drafod materion y Gymraeg neu gŵynion cysylltiedig, ac rydym yn eu hannog i wneud hynny ar ein gwefan.
- Fel yr amlygwyd yn ein Cynllun Gwaith⁹ ar gyfer 2023/24, rydym wrthi ar hyn o bryd yn cynnal ymarfer adolygu cynhwysfawr yn mapio ein polisiâu, ein cynlluniau a'n gweithdrefnau ochr yn ochr â'n Hysbysiad Cydymffurfio, gan bennu statws 'Coch/Oren/Gwyrdd' ar gyfer pob grŵp o safonau. Bydd hyn yn galluogi blaenoriaethu a sicrhau eglurder i'n holl gydweithwyr. Bydd ein Proffesiwn Polisi canolog yn cynnal hyfforddiant 'Hanfodion Polisi' yn yr hydref cyn i Hwb y Proffesiwn Polisi gael ei ail-lansio, a fydd ar gyfer yr holl staff a swyddogion polisi yn arbennig. Mae'r Hwb yn storfa mynediad agored sy'n llawn canllawiau a theclynnau defnyddiol i ddarparu gwybodaeth a chyngor i gydweithwyr sy'n gysylltiedig â pholisi, ymchwil a chyhoeddiadau.

⁹ [Cynllun Gwaith Ofcom 2023/24](#)

3. Manylion cyswilt

Os hoffech gysylltu â ni mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg, neu am gynnwys yr adroddiad blynyddol hwn, e-bostiwch ni yn: cymru@ofcom.org.uk

A1. Ein gweithdrefn safonol ar gyfer cyfieithu dogfennau

- A1.1 **Aesu a oes angen cyfieithu.** Os bydd dogfen (er enghraifft, dogfen ymgynghori, adroddiad, crynodeb gweithredol, datganiad newyddion, tudalen we, neges drydar, neu e-bost diweddarau rhanddeiliaid) yn ymwneud â materion sy'n effeithio ar ddefnyddwyr a dinasyddion yng Nghymru, neu'n debygol o fod yn berthnasol iddynt, byddwn yn cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A1.2 **Cynnal trafodaethau rheolaidd am ofynion cyfieithu.** Mae penderfyniadau ynghylch cyfieithu Cymraeg yn cael eu trafod a'u cytuno mewn cyfarfodydd rheolaidd rhwng timau Gwledydd Ofcom, gan gynnwys ein tîm iaith Gymraeg a'n prif dîm cyfathrebu yn Llundain.
- A1.3 **Cydweithio'n agos gyda'r timau polisi.** Mae'r person sy'n arwain prosiect yn cael gwybod gan y tîm cyfathrebiadau a'r Tîm Iaith Gymraeg bod angen cyhoeddi fersiwn Gymraeg o'r ddogfen. Gall timau polisi hefyd dynnu sylw at y gofyniad iaith Gymraeg yn yr adnodd Rheoli Prosiect Anywhere PPM newydd. Wedyn, mae'r gofyniad hwn yn cael ei ymgorffori yn ein hamserlen gyhoeddi i wneud yn siŵr bod y fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn gyfartal, a'i chyhoeddi ar yr un pryd â'r fersiwn Saesneg.
- A1.4 **Gweithio'n agos gyda'r cyfieithwyr.** Mae gan Ofcom berthynas waith gadarnhaol â'n cyfieithwyr. Maen nhw'n cael gwybod cyn gynted â phosib bod dogfen y bydd angen ei chyfieithu ar y ffordd, a chytunir ar amserlen dychwelyd i gyd-fynd â'r dyddiad cyhoeddi. Darperir amcangyfrif o nifer y geiriau hefyd lle bo hynny'n bosib. Mae ein cyfieithwyr bob amser yn cyfieithu dogfennau Ofcom i'r safon uchaf, a hynny'n brydlon. Maen nhw hefyd yn cynnal geirfa o dermau cymhleth Ofcom er mwyn sicrhau cysondeb ar draws cyfieithiadau. Eu nod yw gwneud yn siŵr bod cyfieithiadau i'r Gymraeg mor glir a chynhwysfawr â phosib, a hynny drwy ddilyn egwyddorion "Cymraeg Clir".
- A1.5 **Gwrio'r ansawdd.** Mae tîm iaith Gymraeg Ofcom yn prawfddarllen ac yn golygu dogfennau sy'n cael eu cyfieithu'n allanol i sicrhau cysondeb, arddull a thôn sy'n briodol i'r sefydliad, yn ogystal â chywirdeb technegol. Mae'r dogfennau wedyn yn cael eu hanfon ymlaen at y tîm digidol i'w cyhoeddi ar yr un pryd ochr yn ochr â'r fersiynau Saesneg.

A2. Ffurflen asesu'r effaith ar yr Iaith Gymraeg

Welsh Language impact assessment form

Welsh language duties relating to our Policy and Research work issued to Ofcom in a compliance notice effective from 25 January 2017 (under the Welsh Language (Wales) Measure 2011).

Introduction

The Welsh Language (Wales) Measure 2011 established a legal framework to impose duties on certain organisations to comply with standards in relation to the Welsh language. The standards issued to Ofcom are listed in Ofcom's compliance notice effective from 25 January 2017.

The Measure has established official status for the Welsh language in Wales, as well as the general principle that Welsh should not be treated less favourably than the English language in Wales. Failure to comply with the legislation can lead to an investigation by the regulator, the Welsh language Commissioner, and a possible £5k fine per breach.

Ofcom's commitment to the Welsh Language

We are committed to supporting the Welsh language and engaging fully with the Welsh Language Commissioner. Ofcom's compliance notice carries Ofcom's full authority, support and approval.

The purpose of this form is to note the key information required to comply with the Welsh Policy and Research standards and record-keeping requirements.

The Commissioner can request this paperwork at any time. Therefore, it's important that we complete these forms if a policy or research project has an impact on the Welsh language.

What are the Welsh Policy making standards?

The aim of a Welsh Language Impact Assessment is to make sure that an Ofcom policy/project pays due regard to the Welsh Language Standards on Policy Making (Standards 84 – 93) as outlined in the compliance notice. The policy making standards are applicable at the point of where they will have an impact regardless of where the policy decision is made.

Policy making standards

When **Ofcom formulates a new policy or revises an existing policy**, we must consider:

2. what effects, if any (whether positive or adverse) the policy decision would have on:
3. how the policy could be formulated (or existing policy changed), so that the policy decision would have positive effects, or increased positive effects on:
4. how the policy could be formulated (or existing policy changed), so that the policy decision would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects on:
 - opportunities for persons to use the Welsh language, and
 - treating the Welsh language, no less favourably than the English language.

5. When Ofcom **publishes a consultation document** which relates to a policy decision, the document must consider, and seek views on,
 - a. the effects (whether positive or adverse) that the policy decision under consideration would have on:
 - b. how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would have positive effects, or increased positive effects, on:
 - c. how the policy under consideration could be formulated or revised so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased adverse effects, on:
 - opportunities for persons to use the Welsh language, and
 - treating the Welsh language, no less favourably than the English language
6. When Ofcom **commissions or undertakes research** that is intended to assist in making a policy decision, Ofcom must ensure that the research considers:
 - a. what effects, if any (whether positive or adverse) the policy decision under consideration would have on:
 - b. how the policy decision under consideration could be made so that it would have positive effects, or increased positive effects on:
 - c. how the policy decision under consideration could be made so that it would not have adverse effects, or so that it would have decreased effects, on:
 - opportunities for persons to use the Welsh language, and
 - treating the Welsh language, no less favourably than the English language

Name of Policy/Project (note if new/existing project):		
Project Code:		
Policy/Project Group:		
Policy/Project Steering Group:		
Date of Assessment:		
Policy/Project runs	From:	To:
Assessment completed by:		Role:

Formulation of a new policy OR a change in an existing policy	Opportunities for persons to use the Welsh language	Treating the Welsh language no less favourably than the English language
How could the policy be formulated (or existing policy changed) in order to have a positive effect or increased positive effects?		
How could the policy be formulated or existing policy changed) so that the policy decision would not have adverse effects, or decreased adverse effects?		

Publication of a consultation document which relates to a policy decision

Effects of the policy decision - positive or adverse		
How could the policy be formulated (or existing policy changed) in order to have a positive effect or increased positive effects?		
How could the policy be formulated (or existing policy changed) so that the policy decision would not have adverse effects, or decreased adverse effects?		

Commissioning research intended to assist in a policy - does the research consider:

Effects of the policy decision - positive or adverse		
How could the policy decision under consideration be made so that it would have positive effects or increased positive effects?		
How could the policy decision under consideration be made so that it would not have adverse effects, or decreased adverse effects?		
Please summarise your analysis of the impact on the Welsh Language of this policy decision.		

Section 1: Aim and Approach

1a. Aim: What do you want to achieve through your project or policy? This could come from your completed Clarity from the Start document.

1b. Method: Describe the main stages of your chosen approach to considering Welsh language impacts. Have you evaluated alternate approaches?

Section 2: Monitoring

Monitoring: Please outline how many mitigating actions you plan to take will be monitored to ensure effectiveness.

What's next?

Once you've completed the form, you should:

Send the form to the Welsh language team at cymru@ofcom.org.uk

- The Welsh team will review and approve your form.
- Save the completed form in the project SharePoint site and make sure the team know where this is.
- Keep the form under review if the project changes (or if it's a long project).

If you need advice when completing the form, please contact the Welsh language team who'll be happy to help.

Diolch yn fawr/Many thanks